# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 12.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13814

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Jack Sargeant AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Michael Kay, Llywodraeth Cymru<br>Mathew Xerri, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Yr Athro Ailsa Henderson (Cynghorwr Arbenigol) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Roedd Jack Sargeant AS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore.

## 2 Papur(au) i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Papur i'w nodi 1 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - 3 Tachwedd 2023**

**2.2 Papur i'w nodi 2 - Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - 9 Tachwedd 2023**

**2.3 Papur i'w nodi 3 - Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25**

**2.4 Papur i'w nodi 4 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio. Cwestiynau dilynol ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 8 Tachwedd 2023**

**2.5 Papur i'w nodi 5 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Diweddariad ar brisiad tair blynedd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil - 13 Tachwedd 2023**

## 3 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru; a Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i:

- ddarparu nodyn ar y weithdrefn ar gyfer newid y Grant Cynnal Refeniw (RSG) o fewn blwyddyn ariannol, ac ynghylch a yw deddfwriaeth sylfaenol yn ofynnol ar gyfer y weithdrefn hon.

- ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am nodyn ar y fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion uwchradd, ac ar yr honiad y gall ysgolion o faint tebyg i'w gilydd weld gwahaniaeth amlwg yn eu dyraniad cyllid.

## Egwyl

## 4 Goblygiadau Ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; Michael Kay, Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Etholiadau; a Mathew Xerri, Pennaeth Polisi Etholiadau, yr Is-adran Etholiadau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Goblygiadau Ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Papur ar y materion allweddol

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur materion allweddol ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

## 9 Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.

## 10 Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.